NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Electroboreiddio na ellir ei wrthdroi ar gyfer trin canser sylfaenol yr afu/iau

27 Tachwedd 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Mae canser sylfaenol yr afu/iau yn dechrau yn yr afu/iau, yn wahanol i ganser eilaidd sydd wedi ymledu o ran arall o'r corff. Yn ystod y driniaeth hon, gosodir nodwyddau untro yn yr afu/iau. Caiff curiadau trydanol byr o gerrynt foltedd uchel eu pasio rhwng y nodwyddau er mwyn creu tyllau bach (mandyllau) yn y celloedd canser (electroboreiddio anwrthdroadwy). Y nod yw lladd y celloedd canser heb niweidio strwythur yr afu/iau.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-8002-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.